**EDC-10-99(p.13)**

**CYFLEOEDD CYFARTAL: NODYN ER GWYBODAETH**

**1. Cyflwyniad**

Mae Cydraddoldeb Cyfle yn ymdrin â rhyw, hil ac anabledd, ac mae polisïau'r Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o'r ffocws cynyddol ar wahaniaethu ar sail oed (yn ddiweddar cyhoeddodd y Llywodraeth Gôd Ymarfer anstatudol) a gwahaniaethu ar sail tueddiadau rhywiol.

Nid yw hyn yn ymdrin â'r materion cydraddoldeb hynny sy'n gysylltiedig â methiant y farchnad ac eithrio cymdeithasol. Yn ei rôl fel cyflogwr, derbyniodd y WDA gymeradwyaeth i'w Bolisi a Threfniadau Cyfleoedd Cyfartal, gan y Swyddfa Gymreig ym mis Chwefror 199 – copi ynghlwm.

Ar ôl cyfuno gyda Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru, mae ymrwymiad i ymgymryd ag "adolygiad trylwyr o bolisïau a threfniadau cyflogi'r tri sefydliad cyfunedig i sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu cyfleoedd cyfartal." Yn ogystal, mae ymrwymiad i wneud ein holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb am sicrhau bod polisïau cyfleoedd cyfartal yr Awdurdod yn cael eu cynnal a'u gwella. Methwyd i ryw raddau â chadw at yr amserlenni oherwydd problemau gydag adnoddau – yn rhannol o ganlyniad i wasgfa ar Gostau Gweithredu Rheolaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfuniad, ond mae'r ymrwymiad yn dal i fod yn rhan o brosiect mwy i sefydlu Strategaeth Adnoddau Dynol ar gyfer y WDA newydd.

**2. Mentrau a Gweithrediadau**

1. **Allanol**

- WDA yn noddi a chefnogi Chwarae Teg yn y tymor hir.
- Cynrychiolaethau gan Chwarae Teg a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ynghylch y Cynllun Corfforaethol.
- Mae'r WDA wedi cynyddu'i gefnogaeth ar gyfer Rhaglen Gydraddoldeb Busnesau Bach a Chanolig.
- Ym 1998/99 comisiynwyd ymchwil ar "Menywod mewn Swyddi Rheoli" ar y cyd gyda'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal.
- Mae amodau a thelerau safonol yn nodi yn y contract na chaiff cyflenwyr wahaniaethu'n anghyfreithlon yn y gwaith ar sail hil, rhyw neu anabledd.
- Rydym yn aelod cyfrannol o'r cynllun Cyfnewid Cydraddoldeb.
- Rydym wedi ymrwymo i'r Sialens Arweinyddiaeth (Menter Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol).
- Trafodaethau gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ynglþn â mentrau rhaglenni posibl.

**2.2 Mewnol**

1. Yn eu lle

- Mae'r Llawlyfr Gweithwyr yn cynnwys polisi ac arfer ar gyfer Cyfleoedd Cyfartal – sy'n orfodol fel rhan o'r contract – ac yn gwahardd gwahaniaethu.
- Defnyddir yr arfer o rannu swydd a gweithio rhan amser mewn rhai achosion.
- Cafodd y Cynllun Oriau Gweithio Hyblyg ei wella yn ddiweddar er mwyn rhoi hyblygrwydd ychwanegol – hwylus i deuluoedd.
- Contractwyr Hysbysebu Swyddi wedi'u briffio er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o ymgeiswyr a chanllawiau'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal ar gyfer "Hysbysebu Swyddi yn Gymraeg" wedi'u gweithredu.
- Dyrchafiad ar sail teilyngdod a menywod ar y Bwrdd ac mewn swyddi uwch.
- Cynllun tâl mamolaeth yn well na'r hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth newydd.
- Caiff staff ddefnyddio meithrinfa'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Rheolwr Adnoddau Dynol gyda'r prif gyfrifoldeb am gyfleoedd cyfartal.

1. Yn y broses

- Cyfleoedd ar gyfer Arferion Gweithio Gwahanol (Hyblyg) wrthi'n cael eu harchwilio.
- Trafodaeth gyfredol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn arwain at ddatblygu Cynlluniau Gweithredu.
- Adroddiadau gwell ar ystadegau personél ar sail rhyw, tarddiad ethnig etc i'w hadolygu gan Dîm a Bwrdd Uwch-Reolwyr.
- Ailddechrau'r Grðp Gweithio Cyfleoedd Cyfartal.
- Hyfforddi rheolwyr a staff Adnoddau Dynol i sicrhau arferion nad ydynt yn gwahaniaethu.

2. **Prosiect Cydraddoldeb Busnesau Bach a Chanolig**

Bu'r Prosiect Cydraddoldeb Busnesau Bach a Chanolig ei hun yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn, yn ei amcan o ddatblygu enghreifftiau o arfer da mewn cyfleoedd cyfartal, gyda ffocws ar ryw, mewn busnesau llai. Mae hyn wedi arwain at wybodaeth ehangach o'r sector Busnesau Bach a Chanolig a'r hyn sy'n ei symbylu mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal.

Mae'r Grðp Llywio ar gyfer y Prosiect (WDA, ACAS, Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal) ar hyn o bryd yn ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o ddatblygu'r prosiect cyfredol yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn felly, byddai o gymorth pe gellid deall meddylfryd Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal y Cynulliad ynglþn â'r ffordd y bwriedir i'w waith symud yn

ei flaen, o ran datblygiad economaidd. Am y rheswm hwn, hoffem sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol a bod pob agwedd ar Brosiectau'r dyfodol yn gyson â meddylfryd Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal y Cynulliad.